

Pobl a Diwylliant

Cylchlythyr / Rhifyn 2 / Mehefin 2022



Llunio ein
Gweithlu
i'r Dyfodol
Shaping Our Future
Workforce

LLUNIWIYD GAN Y TIMAU GWEITHLU A DATBLYGU SEFYDLIADOL

Croeso i ail rifyn y Cylchlythyr Pobl a Diwylliant.

YN Y RHIFYN HWN

- Thema'r Rhifyn: Denu, Recriwtio a Chadw
- Y Stori Hyd Yma: Denu, Recriwtio, Chadw
- Diweddariad ar Dudalen



JONATHAN PRITCHARD

Cyfarwyddwr Cynorthwyol Adnoddau Pobl

Yr Uchelgais

Mae'r gallu i ddarparu gofal tosturiol o ansawdd uchel yn dibynnu ar recriwtio a chadw unigolion sydd â'r sgiliau, y galluoedd, y gwerthoedd a'r profiadau iawn.

Mae hyn wedi dod yn fwyfwy anodd yn dilyn y pwysau ar wasanaethau a gwydnwch y gweithlu sy'n gysylltiedig â'r pandemig COVID-19. Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf gwelwyd prinder ymgeiswyr addas mewn llawer o broffesiynau, ac mae angen inni feddwl yn wahanol am y ffordd yr ydym yn denu ac yn recriwtio ein gweithlu presennol ac yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid gofal cymdeithasol i ddatblygu gweithlu integredig, hyrwyddo gyrfaedd yn ein Bwrdd Iechyd yn arbennig i ddenu gweithlu mwy amrywiol sy'n adlewyrchu ein poblogaeth leol. Byddwn hefyd yn gwella'r ffordd rydym yn cadw, yn rheoli, yn datblygu, yn gwerthfawrogi ac yn gofalu am les ein gweithlu presennol.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

Denu

Mae dros 350 o swyddi gwahanol yn y GIG, ond nid yw llawer o'r rhain yn hysbys i'r cyhoedd. Byddwn yn datblygu strategaeth glir ar gyfer hyrwyddo ein hystod eang o gyfleoedd gwaith sydd ar gael drwy ddatblygu adnodd gwybodaeth gyrfaoedd.

Bydd rhwydweithiau'n cael eu datblygu gydag ysgolion, prifysgolion a sefydliadau lleol i hyrwyddo Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fel y cyflogwr o ddewis. Bydd y broses o hysbysebu swyddi a dyrchafiadau gyrfa yn cael ei thargedu ar gyfryngau cymdeithasol a mathau eraill o gyfryngau er mwyn sicrhau ein bod yn denu'r ymgeiswyr gorau.

Recriwtio

Byddwn yn gweithio gyda'r Gwasanaethau a Rennir i archwilio ffyrdd o ddarparu dull mwy syml o recriwtio, o fewn cyfyngiadau systemau Swyddi'r GIG a Trac, i sicrhau bod ymgeiswyr yn cael profiad cadarnhaol drwy system hawdd ei defnyddio.



Chadw

Mae cadw staff medrus a phrofiadol yn gwella profiad cleifion ac ansawdd cyffredinol gofal cleifion. Mae angen rhyw lefel o drosiant ar bob sefydliad i ddod â thalent newydd i mewn, ond yr her yw dod o hyd i'r cydbwysedd cywir ar draws y Bwrdd Iechyd.

Mae Strategaeth Cadw Staff wedi'i chwblhau'n ddiweddar a bydd yn cyflwyno nifer o fentrau allweddol i nodi'r rhesymau allweddol pam mae pobl yn gadael y Bwrdd Iechyd. Yna gellir defnyddio'r wybodaeth hon i ddod o hyd i atebion i helpu i wella cyfraddau cadw staff.

Byddwn hefyd yn cefnogi'r broses o gadw staff drwy fynd ati'n rhagweithiol i gefnogi gweithlu hŷn, drwy roi mwy o wybodaeth iddynt mewn perthynas â'u hopsiynau hyblyg ar eu hymddeoliad a'u pensiwn yn hytrach nag ymddeol yn gyfan gwbl o'r Bwrdd Iechyd.



To see the People and Culture Plan in full please click here:

[People and Culture Plan - Cardiff and Vale University Health Board \(nhs.wales\)](#)



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

Y Stori Hyd Yma...

Denu

Bydd hyrwyddo'r ystod eang o rolau sydd ar gael ar bob lefel o fewn y bwrdd iechyd yn ffactor allweddol i sicrhau bod y sefydliad yn gynaliadwy ac yn addas ar gyfer y dyfodol.

- Mae'r tîm Adnoddau sydd newydd ei sefydlu wedi bod yn brysur yn cynnal 18 o ddigwyddiadau recriwtio ers mis Rhagfyr 2021. Mae dros 700 o bobl wedi cael cymorth gyda chynghor gyrfaedd ac mae llawer wedi mynd ymlaen i ddod o hyd i waith gyda'r Bwrdd Iechyd. Mae hyn hefyd yn cynnwys ffair recriwtio gyntaf y BIP ers blyneddau lawer yng Ngwesty'r Hilton, Caerdydd ar 4 Mai 22! Derbyniwyd cyfanswm o 130 o geisiadau ac mae 99 wedi'u penodi o ganlyniad i'r fenter hon. Gan fod y digwyddiad yn gymaint o lwyddiant, mae un wedi'i drefnu ar gyfer 14 Gorffennaf a 19 Hydref 2022.

- Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd ei gyfrifoldeb cymdeithasol i bawb yn ein cymuned o ddifrif, gan gynnwys y rheini sy'n ddigartref ac yn ddi-waith. Cynhaliwyd trafodaethau cadarnhaol gydag elusen i'r digartref i nodi sut y gall y bwrdd iechyd gefnogi unigolion digartref i ddychwelyd i gyflogaeth. Edrychwn ymlaen at eich diweddarau ymhellach pan fydd y prosiect wedi mynd rhagddo. Yn ogystal, cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu â 5 o bobl sy'n ddi-waith ers amser maith i hyrwyddo cyfleoedd o fewn gofal iechyd ac i'w helpu i feithrin eu hyder. Rydym yn falch o ddweud bod lleoliadau gwaith gwirfoddol wedi'u cynnig a'u bod yn cael eu prosesu ar hyn o bryd. Y gobaith yw y bydd y cyfleoedd hyn yn arwain at gyflogaeth â thâl.
- Mae 7 digwyddiad sioe deithiol GIG ychwanegol wedi'u cynnal ar y cyd â Gwasanaethau Interwork mewn lleoliadau 'Hyb' amrywiol yn nalgylch y BIP lle mae



**I gael y wybodaeth
ddiweddaraf am yr holl
fentrau sicrhewch eich bod yn
dilyn Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro ar y cyfryngau
cymdeithasol.**



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

dros 200 wedi mynegi diddordeb mewn cyfleoedd swyddi o fewn y BIP.

- Mewn ymateb i argyfwng ffoaduriaid yr Wcráin, mae'r Hyb Nyrsio yn archwilio cyfleoedd i gynorthwyo nyrsys ac eraill sydd wedi gorfod ffoi o'u mamwlad, i sicrhau rolau iddynt fel Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd. Ar ôl ymgartrefu, efallai y bydd nyrsys sydd â chofrestriad yn yr Wcráin wedyn yn dymuno edrych ar gofrestru gyda'r NMC. Mae hyn yn ychwanegol at ein cysylltiadau sefydledig â Gwasanaeth Ffoaduriaid Cyngor Caerdydd, wrth gefnogi ffoaduriaid o wledydd eraill i gofrestru ar y rhaglen Addasu i Nyrsys, er mwyn gweithio fel nyrsys cofrestredig yn y DU.
- Mae cyflwyno'r system Dyrannu wedi symleiddio rhai o'r prosesau o fewn y tîm Staffio Dros Dro. Mae hyn wedi creu cyfle i ehangu cylch gorchwyl y tîm i gynnwys grwpiau staff a phroffesiynau eraill gan gynnwys gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, cyfleusterau a chaplaniaeth.
- Rydym wrthi'n ymrwymo i'r Ymrwymiad 'Camu i Iechyd' (Step Into Health) yn alinio'r sefydliad â'r Bartneriaeth Pontio Gyrfa sy'n cefnogi cymuned y Lluoedd Arfog i gael mynediad at y cyfleoedd gyrfa sydd ar gael yn y GIG. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar y wefan [Step Into Health](#)

- Yn ei rôl fel noddwr gweithredol y nodwedd warchodedig Crefydd a Chred, mae Rachel Gidman wedi bod yn ymweld â lleoliadau cymunedol fel mosgiau lleol i hyrwyddo'r BIP fel cyflogwr i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein poblogaeth.



Cadwch lygad allan am...

- Yn dilyn nifer o ddigwyddiadau recriwtio llwyddiannus yn yr Hyb Nyrsio, cadwch lygad am ymgyrch recriwtio newydd ar gyfer nyrsys
- Ymgyrch hyrwyddo i ddenu Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd i rolau banc Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd. Mae'r prosesau wedi'u symleiddio er mwyn hwyluso mynediad i'r rolau hyn er mwyn i fyfyrwyr gael profiad gwerthfawr ar amgylchedd ward ac i'r BIP gyflenwi yn ystod absenoldeb tymor byr.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

Recruit

Mae llawer o gynnydd wedi'i wneud ar nifer o brosiectau allweddol i amrywio ein gweithlu i adlewyrchu'r boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu partneriaeth fuddugol gyda DFN Project Search. Mae DFN Project Search yn rhaglen paratoi cyflogaeth, blwyddyn o hyd, sy'n digwydd yn gyfan gwbl yn y gweithle. Mae'n helpu oedolion ifanc ag anabledau dysgu a/neu awtistiaeth ledled Caerdydd a'r Fro i ennill profiad a datblygu sgiliau cyflogaeth allweddol. Hoffem ddiolch a llongyfarchiadau i'r 7 intern sydd wedi cyflawni lleoliad llwyddiannus yn gweithio o fewn y Bwrdd Iechyd a llongyfarchiadau i'r 2 sydd bellach wedi cael gwaith gyda ni.

Clywch gan Alberto a Charlotte, yn uniongyrchol, wrth iddynt ddisgrifio cyfraniad unigryw interniaid Project Search at y sefydliad trwy wyllo'r fideos isod. Mae'r cynllun wedi bod mor llwyddiannus fel ein bod bellach wedi recriwtio 10 arall a fydd yn

dechrau ym mis Medi 2022. Bydd yr interniaid newydd yn gweithio ar draws fferylliaeth, arlwy, llieiniau a phatholeg gello.

Os credwch y gallai fod cyfle i intern ymuno â'ch tîm, cysylltwch â Nicky Punter.

Y Cynllun Kick Start Mwyaf Llwyddiannus yng Nghymru!

Oherwydd y dirwedd economaidd bresennol o ganlyniad i Covid19, mae llawer o bobl yn ddi-waith. Mae cyfran uchel o'r unigolion hyn yn bobl ifanc. Lansiodd y llywodraeth gynllun Kickstart newydd arloesol, sy'n rhoi cyfleoedd i bobl ifanc 16-24 oed sy'n derbyn Credyd Cynhwysol trwy greu swyddi o ansawdd uchel gyda chymhorthdal gan y llywodraeth ledled y DU. Llwyddodd Caerdydd a'r Fro i ddod yn gyflogwr uniongyrchol ym mis Ionawr 2020.

"The kickstart scheme can give you this opportunity to get your foot in the door in a setting or speciality, where as you might not have the initial skills to do so."

Mae'r lleoliadau Kickstart yn para chwe mis, ac yn ystod y cyfnod hwn mae'r unigolion yn ennill sgiliau cyflogadwyedd ychwanegol a mentora i'w helpu i lwyddo i gael cyflogaeth hirdymor. Recriwtiodd Caerdydd a'r Fro gyfanswm o 162 o unigolion i'r sefydliad, o'r rhain, mae 2 wedi mynd ymlaen i gynlluniau

Alberto -

<https://youtu.be/Lk3mgfXQ00U>

Charlotte -

<https://youtu.be/rN5tVZCqjQs>



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

prentisiaeth, 35 wedi ennill rolau o fewn y Bwrdd Iechyd, 63 yn dal ar y cynllun ac mae'r 62 arall bellach wedi gorffen eu lleoliadau gyda ni.

"Kickstart gives people a real chance to build a career"

Academi Prentisiaeth

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r Academi Prentisiaeth wedi parhau i adeiladu rhywfaint o fomentwm wrth i ni adfer yn dilyn effeithiau'r pandemig. Rydym wedi llwyddo i recriwtio 8 prentis arall ac mae 3 wedi cwblhau'r brentisiaeth ac wedi llwyddo i gael swyddi o fewn eu hadrannau cynnal. Mae recriwtio ar y gweill ar hyn o bryd ar gyfer ein timau Ystadau, Cofnodion Iechyd a Digidol a bydd hysbysebion yn cael eu cyhoeddi'n fuan ar Swyddi'r GIG! Rydym bob amser yn chwilio am feysydd newydd lle gall prentisiaid wneud gwahaniaeth gwirioneddol. Os ydych chi'n credu y gallai eich adran chi fod yn un ohonynt, cysylltwch ag [Emma Bendle](#) i gael gwybod mwy!

Penodir ein prentisiaid newydd yn seiliedig ar eu hunangymhelliant, eu brwdfrydedd a'u huchelgais i lwyddo. Mae hyn wedi bod yn glir yn ystod y broses gyfweld ac mae hyn yn parhau yn ystod eu cyfnod ar y rhaglen. Maent yn awyddus i ddysgu a bob amser yn chwilio am gyfleoedd lle gallant ddatblygu

neu helpu i wella'r gwasanaeth y maent yn ei gefnogi.

Mae angen annog a meithrin y brwdfrydedd hwn a thrwy roi'r cyfle iddynt weithio a dysgu ar yr un pryd, rydym yn rhoi'r sylfeini iddynt ar gyfer gyrfa lwyddiannus yn y GIG. I gefnogi ein prentisiaid presennol a'n cyn-brentisiaid, rydym wedi sefydlu Rhwydwaith Arweinwyr y Dyfodol sy'n cael ei gefnogi ar y dechrau gan Rachel Gidman, Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant.

Bydd y rhwydwaith hwn yn rhoi cymorth a datblygiad ychwanegol iddynt i'w galluogi i ffynnu a dod yn Arweinwyr y Dyfodol. Y syniad wrth symud ymlaen yw y bydd y rhwydwaith yn cael ei arwain gan y grŵp ac y bydd yn cael y cyfle i lywio'r agenda.

Mae nifer y staff presennol sy'n manteisio ar brentisiaethau wedi cynyddu'n sylweddol ers haf 2021 gyda 236 o ddechreuwy newydd yn cwmparu pynciau fel rheolaeth,

"Ar y cyfan, roeddwn i wrth fy modd yng Nghei'r Gorllewin, fe wnaeth pawb fy annog i ehangu fy ngallu, a fy nghefnogi wrth wneud hynny"

*Rhys Pepper, Prentis Gweinyddu
Busnes Gofal Sylfaenol*



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

iechyd, Gweinyddu Busnes a Defnyddwyr TG. Yn ystod y cyfnod hwn, mae 134 o staff presennol wedi cwblhau eu cymwysterau.

Os hoffech wybod mwy am sut y gall y cymwysterau prentisiaeth gefnogi eich datblygiad chi a'ch staff, cysylltwch ag [Emma Bendle](#).

Ehangu Mynediad

Cyn y pandemig roedd gweithgareddau ehangu mynediad, fel profiad gwaith a sgysiau gyrfaedd, yn bethau yr oeddem yn cymryd rhan weithredol ynddynt i gefnogi ein plant ysgol lleol i ddod o hyd i'r wybodaeth am yrfaedd yr oedd ei hangen arnynt i wneud dewisiadau gwybodus ynghylch llwybrau i mewn i waith ac addysg bellach.

Wrth i ni ddod allan o'r pandemig mae angen i ni edrych ar sut y gellir ailddechrau'r gweithgareddau hyn a sut y gall y gwasanaeth gefnogi o safbwynt sy'n benodol i'r proffesiwn.

Os hoffai eich gwasanaeth fod yn rhan o gynig lleoliad profiad gwaith neu ddarparu sgws yrfaedd i ysgol leol, naill ai'n bersonol neu'n rhithwir, mynegwch eich diddordeb drwy e-bostio work.experience.uhw@wales.nhs.uk.

Drwy gyflawni'r gweithgareddau hyn rydym yn gosod y sylfeini ar gyfer ein gweithlu yn y dyfodol ac yn dathlu'r rhesymau pam ein bod yn angerddol am yr hyn a wnawn!

Rhaglen Addasu Nyrsys Tramor

Yn dilyn cymeradwyaeth y Bwrdd Gweithredol, mae'r Hyb Nyrsio wedi gweithio'n ddiflino i recriwtio 135 o nyrsys tramor a fydd yn ymuno â ni yn ddiweddarach eleni. Mae hyn yn ychwanegol at y 90 sydd wedi cael eu recriwtio ers mis Medi 2021.

Ym mis Mai 2022, mae cyfanswm o 285 o nyrsys tramor wedi llwyddo i basio eu harholiadau OSCE gan eu galluogi i ennill eu cofrestriad NMC i ymarfer fel nyrsys cofrestredig. Diolch yn fawr iawn i bawb sy'n gweithio fel rhan o'r Hyb Nyrsio am eu hymdrechion, ac i'r adran Dysgu, Addysg a Datblygu am eu cefnogaeth wrth gyflwyno'r hyfforddiant.



Dilynwch y ddolen hon i glywed cyfweiliad gyda [Nisha Vellaplamuriyl](#), cyn-fyfyrwr llwyddiannus ar y Rhaglen Dramor sydd bellach yn hyfforddwr ar y rhaglen. Dysgwch fwy am brofiad y nyrsys sy'n cofrestru a sut y gallwn eu helpu i ymgartrefu a datblygu.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

Proses Ymgeisio wedi'i hailwampio ar gyfer Swyddi Gwag yn yr adran Cyfleusterau

Yn ddiweddar, mae'r adran cyfleusterau wedi wynebu anawsterau recriwtio mawr gyda chyfraddau ymgeisio isel er gwaethaf 100 o swyddi gwag. Mewn ymateb i adborth, mae'r broses ymgeisio a'r ffurflen wedi'u haddasu i wneud y profiad yn haws ac yn fwy didrafferth. Mae hyn eisoes wedi arwain at 91 o gynigion swyddi - gyda 59 o weithwyr newydd eisoes yn eu swyddi. Yn ogystal, mae nifer o weithwyr asiantaeth wedi manteisio ar y cynnig o gontractau parhaol o fewn y BIP, gan leihau ymhellach ein dibyniaeth ar asiantaethau allanol. Croeso i'n holl ddechreuwyd newydd!



Did you Know...

Mae bathodynau fel yr un isod yn cael eu gwisgo gan nyrsys sydd newydd gymhwyso



Cadw

Mae strategaeth cadw staff y Bwrdd Iechyd wrthi'n cael ei datblygu.

Mae'r pwyslais ar leihau trosiant staff trwy nodi problemau a gweithredu i'w datrys yn gynnar er mwyn cadw gweithwyr gwerthfawr. Gyda hyn a chyflawni mentrau eraill, rydym yn gobeithio cynnal ymgysylltiad a lles yr holl weithwyr a chyfrannu at amgylchedd gwaith cadarnhaol iach i bob un ohonom.




- Darparu safle lles i gefnogi staff sydd mewn perygl o gael eu gorlethu.
- Rhaglen o waith adnewyddu ystafelloedd staff a gorsafoedd hydradu
- Gwella sgiliau arwain a datblygu (Cyflymu, Cydweithio, cymorth mwy ad hoc i reolwyr)
- Sesiynau seibiant ar gyfer myfyrio, cefnogi a datblygu ar gyfer timau clinigol (timau meddygaeth)
- Treialu cymorth gan gymheiriaid (rowndiau Schwartz) yn y Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl
- Mwy o amlygrwydd i Dimau Lles i gefnogi meysydd clinigol.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

- Gwelliant mawr o ran recriwtio i swyddi nyrsio Band 5 a 6 i leihau'r pwysau ar staff wardiau – y gyfradd swyddi gwag oedd 489 WTE ym mis Medi 2021, mae hyn wedi gostwng i 353 WTE ym mis Mawrth a rhagwelir y bydd yn gostwng i 112 WTE erbyn mis Rhagfyr 2022.
- Cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu MES, gyda dau ddigwyddiad ar-lein dan arweiniad y Cyfarwyddwr Meddygol ac wedi'u cefnogi gan y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Datblygu Sefydliadol a Diwylliant. Mae camau pellach yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â meysydd ymgysylltu isel.
- Mae tua 40 o hyfforddwr yn cael eu hyfforddi ar y rhaglen Mentora/Hyfforddi lefel 5 a/neu 7 ILM. Mae 38 o hyfforddeion sy'n Rheolwyr Ward ac yn Ddirprwy Reolwyr Ward, wedi cael hyfforddwr. Mae offeryn hyfforddi wedi'i gaffael i helpu hyfforddwr a hyfforddeion i ddewis a rheoli'r cydberthnasau.



- Mae 90 o reolwyr wedi'u cofrestru ar raglenni prentisiaeth rheoli lefel 4 a 5 ILM yn ystod y 6 mis diwethaf sy'n gyflawniad sylweddol yng ngoleuni pwysau'r pandemig a chynnydd sylweddol mewn niferoedd.
- Mae'r broses o weithredu'r amserlen iechyd Allocate wedi dechrau a fydd yn gwella effeithiolrwydd llenwi sifftiau ward.

Bydd rhai o'r mentrau hyn yn cael eu hesbonio'n fanylach mewn rhifynnau o'r cylchlythyr yn y dyfodol gan eu bod yn perthyn i wahanol themâu'r Cynllun Pobl a Diwylliant ond yn cyfrannu at brofiad cyffredinol ein gweithwyr yn y gweithle ac felly'n gwella cyfraddau cadw.

Cydnabyddiaeth Frenhinol am Ymrwymiad i Les Cydweithwyr

Derbyniodd Nicola Bevan, Pennaeth Iechyd Galwedigaethol a Gwasanaethau Iechyd a Lles Cyflogaion ar gyfer CAF a CTM ei gwahoddiad unigryw i'r Arddwest Frenhinol ar ôl cael ei henwebu gan gydweithwyr am ei hymrwymiad i gefnogi lles y gweithlu yn ystod y pandemig Covid-19. Mae hwn yn gyflawniad anhygoel ac yn gydnabyddiaeth wych o waith Nicky a'r timau Iechyd Galwedigaethol a Lles Cyflogaion.



Gweminarau Lles

Gweminarau Lles Mewnol Cynhwysol

Mae Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro yn ymrwymedig i hyrwyddo a chefnogi lles ei holl staff.

Rydym yn cydnabod bod lles staff yn hanfodol i gynnal safon uchel o ofal i'n cleifion, ac felly rydym yn falch o gyhoeddi ein partneriaeth â Retinue ar gyfer cynnig lles mewnol cynhwysol. Rydym yn hyderus y bydd Retinue yn bartner gwerthfawr wrth gefnogi'r fenter hon, a chredwn y bydd y cynnig hwn yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.

"Mae lles yn dibynnu ar arweinyddiaeth ag ymddiriedaeth uchel ar bob lefel i hybu gwerthoedd a thosturi mewn diwylliant ar draws timau a systemau"

Nicki Collins, Cyfeirwr ar gyfer Adroddiad Mawrth y 10/1/2021 Llangollen, ar y Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bro

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Cardiff and Vale University Health Board

Dilynwch y ddolen hon i archebu



**GIG
CYMRU
NHS
WALES**

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

Diweddariad ar Dudalen

Ers rhifyn cyntaf y cylchlythyr, mae llawer o waith wedi'i wneud ar draws yr holl themâu. Dyma sampl o weithgarwch diweddar a'r hyn sydd ar y gorwel:

Gweithlu Ymroddedig

- Mae'r holl weithwyr wedi cael taleb o £5 i'w defnyddio ar draws safleoedd y BIP. Ydych chi wedi defnyddio'ch un chi eto?
- Er mwyn ein galluogi i fod yn fwy rhagweithiol wrth dderbyn ac ymateb i adborth, mae offeryn ymgysylltu wedi'i gaffael a fydd yn caniatáu archwiliadau tymheredd rheolaidd gyda grwpiau staff nyrsio a HCSW.
- Cynhelir y Gwobrau Cydnabod Staff y mae disgwyl mawr amdanynt ar 14 Gorffennaf 2022

Gweithlu sy'n Barod yn Ddigidol

- Bu mwy o ysgogiad i gyflwyno technoleg ddigidol ar draws y BIP i roi mwy o fynediad i staff at dechnoleg ddigidol wedi'i diweddarau.
- Yn dilyn rhyddhau'r Fframwaith Gweithio Ystwyth, ceir mwy o ymchwilio bellach i wneud gweithio ystwyth yn haws i weithwyr.
- Cadwch lygad am waith hyrwyddo hyfforddiant digidol. Mae hyn yn

cynnwys lleoedd a ariennir ar MSc, cymwysterau proffesiynol, digwyddiadau DPP achrededig, yn ogystal â rhaglenni datblygu sgiliau digidol mewnol.

Addysg a Dysgu Rhagorol

- Mae 20 HCSW o Fwrdd Iechyd y Brifysgol wedi cyrraedd y cam cyfweiliad ar gyfer rhaglen israddedig hyblyg Prifysgol De Cymru, sef ein grŵp mwyaf hyd yma.
- Mae Learning@NHS Cymru bellach wedi'i weithredu'n llwyddiannus fel y platfform dysgu ar gyfer hyfforddiant penodol i'r BIP. Mae 9 rhaglen bellach ar gael ar y platfform, mae gennym gyfanswm o 3,000 o ddefnyddiau gweithredol ac mae 6 rhaglen ychwanegol yn cael eu datblygu ar hyn o bryd.
- Mae gwaith gwella helaeth yn cael ei wneud i weithio gyda chynrychiolwyr myfyrwyr i wella profiad myfyrwyr ar leoliad mewn ymateb i bryderon sylweddol a godwyd gan fyfyrwyr nyrsio.

Bydd y Rhifyn Nesaf yn cynnwys.

Arweinyddiaeth ac Olyniaeth

- Prynu platfform hyfforddi/mentora i hwyluso'r gwaith o baru a monitro gweithgarwch



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

- Lansio Rhaglen Uwch Arweinyddiaeth Acceler8, 10 cynrychiolydd o bob rhan o'r BIP gyda ffocws ar ddysgu drwy brofiad. Darparwyd dau fodiwl allan o saith hyd yn hyn.
- Datblygu cyfleoedd arwain sy'n gysylltiedig â lles

Llunio a Chyflenwi'r Gweithlu

- Mae'r tîm e-amserlennu wedi sicrhau cyllid i ehangu'r tîm yn rheolaidd a fydd yn ein galluogi i gyflymu'r broses o gyflwyno HealthRoster ar draws grwpiau Nyrsio a grwpiau staff eraill, ymgorffori egwyddorion amserlennu effeithiol, darparu cymorth parhaus i reolwyr amserlenni, ac ati. Bydd amserlennu effeithiol yn cefnogi'r canlynol: lefelau staffio cyson gyda'r cymysgedd cywir o sgiliau, amserlenni'n cael eu cymeradwyo chwe wythnos ymlaen llaw a fydd yn darparu gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, staff a gweithwyr banc yn gallu trefnu sifftiau banc drwy'r Ap, amserlennu mwy effeithiol = llai o gamgymeriadau o ran y gyflogres, ac ati.
- Cyflwynwyd rolau Ymarferwyr Cynorthwyol Band 4 newydd mewn Gofal Amdriniaethol, gan weithio'n bennaf mewn meysydd llawfeddygol risg isel fel Offthalmoleg a chânt eu cyflwyno yn fuan ym maes Nyrsio Ardal yn dilyn adolygiad o'r model gofal. Mae hon yn rôl sy'n cael ei hystyried ar draws llawer o wahanol feysydd clinigol. Rydym yn rhagweld y

bydd rolau newydd fel y rhain yn cynnig cyfleoedd datblygu i'n staff presennol, yn cynyddu boddhad yn y gwaith ac, yn y pen draw, bydd newid siâp ein gweithlu yn y dyfodol yn lleihau'r prinder rydym yn ei brofi ar hyn o bryd.

- Mae cywirdeb data ein gweithlu wedi gwella, a bydd yn parhau i wella, a fydd yn cefnogi ein rheolwyr a'n harweinwyr i wneud penderfyniadau mwy gwybodus. Mae data'r gweithlu ar gael i reolwyr a staff drwy [People Analytics](#).

Modelau Gweithlu Di-dor

- Rydym yn dymuno sefydlu ffyrdd newydd o weithio, dileu rhwystrau a chreu cyfleoedd i gyfoethogi eich profiad gwaith, a llunio gweithlu cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.
- O ganlyniad i'r gwaith hyd yn hyn, mae rolau newydd yn dod i'r amlwg gyda 17 o Gymdeithion Meddygol newydd wedi'u recriwtio hyd yma a strategaeth ar waith ar gyfer Gweithwyr Cymheiriaid a fydd yn cyfrannu eu profiad personol i wella'r gofal a ddarperir i ddefnyddwyr gwasanaeth eraill.



Os gwnaethoch chi fethu rhifyn cyntaf y cylchlythyr Pobl a Diwylliant, gallwch ddod o hyd iddo yma.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board